

# Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe

Cylchlythyr

Rhifyn 02



**Gweithio ar ran Bwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe i sicrhau bod cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn cael yr effaith fwyaf posibl.**

## Yn y Rhifyn Hwn

- Bargeinion Dinesig Bae Abertawe
- Gweithdy Ynni De-orllewin Cymru
- 'WaveSub'
- Erasmus+ 2017
- PDSR
- Horizon 2020
- Urban Innovative Actions
- Beacon+
- Celtic Routes
- SPARC 11
- Interreg Ewrop

## Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu:

- Gwybodaeth ac arweiniad ynghylch sut y mae gweithrediad au'r Gronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn cyd weddu â blaenoriaethau strategol y rhanbarth.
- Hybu cyswllt rhwng partneriaid mewn gweithrediadau arfaethedig er mwyn datblygu cydweithrediad gwirioneddol effeithiol
- Sicrhau budd a mewnbwn i'r rhanbarth gan weithrediadau strategol cenedlaethol.
- Nodi cyfleoedd i gydweithio neu ychwanegu gwerth, a llei hau'r risg o ddyblygu drwy hyrwyddo integreiddio ar draws cronfeydd Ewropeaidd.
- Cefnogi'r broses o fonitro a gwerthuso'r rhaglenni'n rhan barthol, yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd/arferion da.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch datblygiadau a blaenoriaethau rhanbarthol.

## Bargeinion Dinesig Bae Abertawe

**Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn sicrhau dros £1.3 biliwn o fuddsoddiad drwy lofnodi Bargaen Ddinesig 'Arfordir y Rhyngrwyd' gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.**

Bydd Bargaen Ddinesig Arfordir y Rhyngrwyd, sy'n torri tir newydd, yn manteisio ar rym trawsnewidiol cysylltedd digidol i gyflymu twf economaidd a ffyniant yn Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Mae Bargeinion Dinesig yn fodelau twf economaidd sy'n rhoi cyfle i ranbarthau bod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal, gwneud beth sydd orau yn eu barn nhw i helpu busnesau i dyfu, clustnodi blaenoriaethau ar gyfer twf economaidd yn y rhanbarth a penderfynu sut y dylid gwario cyllid i gyflawni'r blaenoriaethau hynny

Bydd y Fargaen Ddinesig yn darparu bron i 10,000 o swyddi newydd ac yn cynyddu gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir yn y rhanbarth £1.8 biliwn, gan roi sylw i'r bwch o ran ffyniant rhwng Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gweddill Cymru a'r DU.

Cliciwch I ddarllen mwy [yma](#)

Cynhaliwyd Gweithdy 'Ynni Cynaliadwy ac Effeithlonrwydd Ynni' yn Hwlfordd ar 8 Rhagfyr 2016 yn sgil cydweithrediad rhwng Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe, partneriaethau lleol, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a Llywodraeth Cymru. Roedd dros 30 o bobl yn bresennol yn y gweithdy, a oedd yn gyfle i archwilio ymhellach pa gyllid sydd ar gael i fynd i'r afael â dyfodol y cyflenwad ynni, rheolaeth ynni a'i ddefnydd, ac effeithlonrwydd ynni ledled Cymru.

Daeth ystod eang o bobl frwdfrydig y sector ynni, rhanddeiliaid a chyflogwyr y rhanbarth ynghyd i'r gweithdy. Yn ogystal ag archwilio cyfleoedd cyllido, roedd y gweithdy'n rhoi darlun i'r cynadleddwyr o'r prosiectau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ac yn rhoi'r cyfle iddynt drafod syniadau newydd y gellid eu datblygu fel rhan o gyfres o brosiectau sydd ar y gweill ar gyfer y rhaglen bresennol o gyllid yr Undeb Ewropeaidd, a chyllid perthnasol y Deyrnas Unedig.

Daeth y siaradwyr gwadd â llu o wybodaeth i'r sesiwn. Mi wnaeth Jane Forshaw, Rheolwr Partneriaethau Lleol, gyflwyno gwaith y Partneriaethau Lleol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gyflwyno prosiectau cynhyrchu ynni ac effeithlonrwydd ynni, fel Twf Gwyrdd Cymru. Cyflwynodd Guillaume Le Palud, o'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, a phwynt cyswllt Ardal yr Iwerydd yn y Deyrnas Unedig, fanylion am raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, tra gwnaeth Baudewijin Morgan o'r Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ddarparu gwybodaeth ynghylch Portffolio Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yng Nghymru a rhaglen Horizon 2020 ar gyfer Ynni.

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr. Hybodd drafodaethau i brocio'r meddwl gan alluogi'r rhai a oedd yn bresennol i ddysgu am ba gymorth sydd ar gael iddynt, yn ogystal â'u galluogi i wneud cysylltiadau o fewn y sector. Am fanylion ynghylch sesiynau gwybodaeth tebyg sy'n cael eu cynnal gan Dîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe, cysylltwch â: [SwanseabayRET@sirgar.gov.uk](mailto:SwanseabayRET@sirgar.gov.uk)

### WaveSub yn cyrraedd Carreg Filtir o bwys

Mae dyfais grym tonnau arloesol, WaveSub, a arweinir gan Marine Power Systems (MPS) o Abertawe, wedi cyrraedd cam pwysig iawn yn y datblygiad gan fod y gwaith o adeiladu'r prosiect unigryw wedi dechrau o ddifrif.

Bydd dyfais WaveSub oddi ar Arfordir Sir Benfro yn darparu ffynhonnell ynni adnewyddadwy ddibynadwy drwy harneisio ynni tonnau'r môr. Mae gan y dechnoleg, sy'n cael ei datblygu gan MPS, botensial anferth i gyfrannu at dargedau diogelwch ynni a bydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar gyflenwadau ynni anrhagweladwy ac anadnewyddadwy.

Mae prosiect WaveSub gan MPS wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, a chafodd MPS grant o £2 filiwn ym mis Hydref 2015.

Yn gynharach eleni, dyfarnodd MPS y tendr ar gyfer cynhyrchu ei ddyfais, WaveSub, i Ledwood Mechanical Engineering, sef cwmni peirianneg blaenllaw yn Noc Penfro.

Bydd y prosiect yn helpu i greu cadwyn gyflenwi ynni'r môr yng Nghymru, gan fod nifer o'i gyflenwyr ar gyfer y gweithrediad hwn wedi'u lleoli yng Nghymru ac felly'n cyfrannu at swyddi lleol.

### Erasmus+ 2017 a'r dyddiadau cau

Nid yw canlyniad y refferendwm ynghylch yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar sefydliadau yn y Deyrnas Unedig sy'n ymgeisio am gyllid Erasmus+ yn 2017. Bydd ceisiadau sy'n llwyddiannus dan alwad 2017 yn cael cyllid am gyfnod y prosiect. Mae nifer o wahanol gyfleoedd cyllido ar gael o dan Erasmus+ ar gyfer addysg uwch, addysg alwedigaethol, ysgolion, addysg i oedolion, ac ieuencid.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i ymgeisio, cliciwch [yma](#)

I weld y dyddiadau cau ar gyfer cyllid, cliciwch [yma](#)

### Cyflogwyr o bob rhan o dde-orllewin Cymru yn cael eu hannog i ymgysylltu â'r Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol



Regional Learning and Skills Partnership  
Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol  
**South West & Mid Wales**  
De-Orllewin a Canolbarth Cymru

Ymunwch â busnesau sy'n debyg i'ch busnes chi a dweud eich dweud am ddatblygu sgiliau yn y rhanbarth. I gwblhau arolwg byr y Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol, cliciwch [yma](#) a byddwch yn rhan o'r ateb.

#### Urban Innovative Actions - ail alwad ar agor

Mae ail alwad UIA am gynigion ar agor 2pm ar 14 Ebrill 2017.

Mae'r fenter UIA yn gwahodd ymgeiswyr i ddatblygu a chyflwyno prosiectau dan dri phwnc: economi gylchol, symud o le i le mewn trefi/dinasoedd ac integreiddio mewn fudwyr a ffoaduriaid. Mae cyllideb gyffredinol o 50 miliwn ewro o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi'i dyrannu i'r alwad hon.

I gael rhagor o wybodaeth am 'Beth yw Urban Innovative Actions', cliciwch [yma](#)

#### Digwyddiad Blynyddol Horizon 2020 yng Nghymru

Bydd y digwyddiad blynyddol yn cael ei gynnal ar 30 Mawrth 2017 yn Future Inn, Bae Caerdydd. Bydd y digwyddiad yn rhoi sylw i sut y bydd manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllido ymchwil ac arloesi yr Undeb Ewropeaidd yn helpu sefydliadau yng Nghymru i ffynnu nawr ac ymhell i'r dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth ac i archebu eich lle, cliciwch [yma](#)

#### Beacon+

Dan arweiniad Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) Prifysgol Aberystwyth, ar y cyd â'i phartneriaid ym Mhrifysgolion Bangor ac Abertawe, mae menter BEACON+ yn integreiddio arbenigedd a chyfleusterau i gynorthwyo cwmnïau i ddatblygu cynhyrchion a phrosesau newydd neu uwchraddio prosesau sydd eisoes yn bodoli, gan ddefnyddio technolegau carbon isel, gan gynnwys biomas lle y bo'n bosibl. Gyda chymorth £8 miliwn gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), nod BEACON+ yw sefydlu Cymru fel Canolfan Ragoriaeth Bioburo a gwneud cyfraniad hollbwysig at liniaru'r newid yn yr hinsawdda thyfu bioeconomy Cymru.

Prif nod BEACON+ yw defnyddio cysyniad bioburo i weithio gyda chwmnïau defnyddiwr terfynol, er mwyn amlygu ystod eang o gynhyrchion o ddeunydd planhigion sydd wedi'u teilwra i'w gofynion.

Mae'r cysyniad bioburo yn defnyddio cyfl enwadau cnydau nad ydynt yn fwyd mewn modd tebyg i'r ffordd y mae purfeydd olew yn defnyddio olew crai i gynhyrchu amrywiaeth eang o gynhyrchion nwyddau. Mae'n ceisio rhoi mantais fasnachol i gwmnïau gweithgynhyrchu wrth farchnata'r cynhyrchion adnewyddadwy hyn, yn ogystal â sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd eu busnesau yn y dyfodol trwy gymhwysu'r technolegau hyn sy'n datblygu.

#### Sut gall BEACON+ eich helpu?

Mae BEACON+ yn cynnig y cyfle i fusnesau â buddiannau yn y sector bioburo fanteisio ar ymchwil, arbenigedd a sylfaen wybodaeth prifysgolion yng Nghymru.

## Trydedd alwad Interreg Ewrop ar agor nawr

Mae'r drydedd alwad am gynigion prosiect ar agor nawr a bydd ceisiadau yn cael eu derbyn tan 30 Mehefin 2017.

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch [yma](#)

## SPARC II

**Mae bron i £5miliwn o gyllid Ewropeaidd yn cael ei fuddsoddi i sicrhau bod Cymru yn flaenllaw ym maes technoleg ynni solar y genhedlaeth nesaf.**

Bydd y cyllid yn cefnogi rhaglen ymchwil bum mlynedd ym mhrifysgolion Cymru sydd wedi ei anelu at fynd i'r afael â'r heriau amlwg o ddatblygu technoleg ffotofoltäig solar y genhedlaeth nesaf.

Bydd SPARC II (Solar Photovoltaic Academic Research Consortium) o dan arweiniad Prifysgol Abertawe mewn partneriaeth â phrifysgolion Bangor ac Aberystwyth.



Cliciwch I ddarllen mwy  
[yma](#)

Bydd y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar gymwysiadau newydd ar gyfer technoleg solar y genhedlaeth nesaf gan gynnwys cynnyrch symudol, awyrennau a'r diwydiant gofodol.

Mae disgwyl i'r rhaglen ryddhau £10miliwn arall o fuddsoddiadau mewnol i Gymru drwy ymchwil a datblygu ychwanegol ar raddfa fawr gyda cwmnïau rhyngwladol a gweithgynhyrchwyr arbenigol.

Bydd busnesau o Gymru yn y diwydiant ynni solar hefyd yn elwa o gyfleoedd gweithgynhyrchu a mynediad at waith ymchwil ac arbenigedd o safon rhyngwladol sy'n cael ei ddatblygu mewn prifysgolion yng Nghymru.

### Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,  
Business Resource Centre,  
Parc Amanwy,  
Ammanford.  
SA18 3EP

01554 742473 / [swanseabayret@sirgar.gov.uk](mailto:swanseabayret@sirgar.gov.uk)

